



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2021 Rhif 172 (Cy. 40)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Cyfngiadau Coronafeirws) (Rhif  
5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3)  
2021

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniaid haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniaid coronafeirws syndrom anadolol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1609 (Cy. 335)) ("y prif Reoliadau").

Mae'r prif Reoliadau wedi eu diwygio i wneud addasiadau dros dro i'r cyfngiadau a'r gofynion sy'n gymwys i ardal Lefel Rhybudd 4 o dan Atodlen 4 i'r prif Reoliadau. Mae'r darpariaethau dros dro yn caniatáu i hyd at 4 o bobl o 2 aelwyd wahanol wneud ymarfer corff gyda'i gilydd yn yr awyr agored (er bod rhaid o hyd i'r ymarfer corff ddechrau o'r man lle y mae'r bobl yn byw a gorffen yno).

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2021 No. 172 (W. 40)**

**PUBLIC HEALTH, WALES**

The Health Protection (Coronavirus  
Restrictions) (No. 5) (Wales)  
(Amendment) (No. 3) Regulations  
2021

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

Part 2A of the Public Health (Control of Disease) Act 1984 enables the Welsh Ministers, by regulations, to make provision for the purpose of preventing, protecting against, controlling or providing a public health response to the incidence or spread of infection or contamination in Wales.

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

These Regulations amend the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/1609 (W. 335)) ("the principal Regulations").

The principal Regulations are amended to make temporary modifications to the restrictions and requirements applying to an Alert Level 4 area under Schedule 4 to the principal Regulations. The temporary provisions allow groups of up to 4 people from 2 different households to exercise together outdoors (though the exercise continues to have to start and finish from the place where the people are living).

Er mwyn darparu ar gyfer addasiadau dros dro o'r fath, mae diwygiad cyfatebol wedi ei wneud i reoliad 4(8). Effaith hyn yw bod y cyfyngiadau a'r gofynion ar gyfer pob lefel rhybudd (fel y'u nodir yn Atodlenni 1 i 4) yn gymwys i ardal yn ddarostyngedig i unrhyw addasiadau dros dro a bennir mewn perthynas â'r ardal honno yn Atodlen 5. Felly yn ogystal ag edrych ar Atodlen 5 i benderfynu pa un o Atodlenni 1 i 4 sy'n gymwys i ardal, rhaid ichi hefyd ystyried sut y gall yr Atodlen berthnasol fod wedi ei haddasu gan Atodlen 5.

Mae Rhan 3A o Atodlen 4 i'r prif Reoliadau yn gwahardd perchnogion ysgolion yng Nghymru mewn ardal Lefel Rhybudd 4 rhag caniatáu i ddisgyblion fynd i fangreodd ysgolion. Mae hefyd yn gwahardd perchnogion sefydliadau addysg bellach rhag caniatáu i fyfyrwyr fynd i'r sefydliadau hynny. Mae hyn yn ddarostyngedig i eithriadau penodol yn y ddau achos.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhan 3A o Atodlen 4 i'r prif Reoliadau fel nad yw'r gwaharddiad ar berchnogion ysgolion yn gymwys ond mewn perthynas â disgyblion ym mlwyddyn 3 neu'n uwch. Mae hefyd yn diwygio'r Rhan honno fel nad yw'r gwaharddiad ar berchnogion sefydliadau addysg bellach yn gymwys os yw'r myfyriwr yn ymgymryd â chwrs mewn peirianneg, adeiladu, lletygarwch, arlywo neu amaethyddiaeth a bod angen iddo fynd i'r sefydliad i gwblhau ei gwrs.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau pellach i Atodlen 4 i'r prif Reoliadau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

To provide for temporary modifications of this nature, a corresponding amendment is made to regulation 4(8). This means the restrictions and requirements for each alert level (set out in Schedules 1 to 4) apply to an area subject to any temporary modifications specified in relation to that area in Schedule 5. So in addition to looking at Schedule 5 to determine which of Schedules 1 to 4 applies to an area, you must also consider how the relevant Schedule may have been modified by Schedule 5.

Part 3A of Schedule 4 to the principal Regulations prohibits proprietors of schools in Wales in an Alert Level 4 area from allowing pupils to attend school premises. It also prohibits proprietors of further education institutions from allowing students to attend those institutions. This is subject to certain exceptions in both cases.

These Regulations amend Part 3A of Schedule 4 to the principal Regulations so that the prohibition on school proprietors applies only in relation to pupils in year 3 or above. It also amends that Part so that the prohibition on proprietors of further education institutions does not apply if the student is undertaking a course in engineering, construction, hospitality, catering, or agriculture and needs to attend the institution to complete their course.

These Regulations also make further minor amendments to Schedule 4 to the principal Regulations.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has not been prepared as to the likely cost and benefit of complying with these Regulations.

## 2021 Rhif 172 (Cy. 40)

### IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Cyfngiadau Coronafeirws) (Rhif  
5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3)  
2021

*Cymeradwywyd gan Senedd Cymru*

Gwnaed am 3.06 p.m. ar 19 Chwefror 2021

Gosodwyd gerbron Senedd  
Cymru am 5.45 p.m. ar 19 Chwefror 2021

Yn dod i rym 20 Chwefror 2021

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

## 2021 No. 172 (W. 40)

### PUBLIC HEALTH, WALES

The Health Protection (Coronavirus  
Restrictions) (No. 5) (Wales)  
(Amendment) (No. 3) Regulations  
2021

*Approved by Senedd Cymru*

*Made at 3.06 p.m. on 19 February 2021*

*Laid before Senedd  
Cymru at 5.45 p.m. on 19 February 2021*

*Coming into force 20 February 2021*

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 45C(1) and (3)(c), 45F(2) and 45P(2) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1).

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

The Welsh Ministers consider that restrictions and requirements imposed by these Regulations are proportionate to what they seek to achieve, which is a public health response to that threat.

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(1) 1984 c. 22. Sections 45C, 45F and 45P were inserted by section 129 of the Health and Social Care Act 2008 (c. 14). The functions under these sections are conferred on "the appropriate Minister". Under section 45T(6) of the 1984 Act the appropriate Minister, as respects Wales, is the Welsh Ministers.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafod wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

## Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 20 Chwefror 2021.

## Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020

2.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020<sup>(1)</sup> wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl rheoliad 4(6) mewnosoder—

“(6A) Mae'r cyfngiadau a'r gofynion a nodir yn un o Atodleni 1 i 4 yn gymwys i ardal yn ddarostyngedig i'r addasiadau dros dro a bennir mewn perthynas â'r ardal honno yn Atodlen 5.”

(3) Yn rheoliad 57(1), yn lle is-baragraff (h) rhodder—

“(h) ystyr “athletwr elît” yw unigolyn—

- (i) sy'n ennill bywoliaeth o gystadlu mewn camp,
- (ii) sydd wedi ei ddynodi'n athletwr elît gan Gyngor Chwaraeon Cymru at ddibenion—
  - (aa) y Rheoliadau hyn,
  - (bb) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020,
  - (cc) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020,
  - (dd) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020, neu

In accordance with section 45R of that Act the Welsh Ministers are of the opinion that, by reason of urgency, it is necessary to make this instrument without a draft having been laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru.

## Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) (Amendment) (No. 3) Regulations 2021.

(2) These Regulations come into force on 20 February 2021.

## Amendment of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020

2.—(1) The Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020<sup>(1)</sup> are amended as follows.

(2) After regulation 4(6) insert—

“(6A) The restrictions and requirements set out in one of Schedules 1 to 4 apply to an area subject to the temporary modifications specified in relation to that area in Schedule 5.”

(3) In regulation 57(1), for sub-paragraph (h) substitute—

“(h) “elite athlete” means an individual who—

- (i) derives a living from competing in a sport,
- (ii) is designated as an elite athlete by the Sports Council for Wales for the purposes of—
  - (aa) these Regulations,
  - (bb) the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (Wales) Regulations 2020,
  - (cc) the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 2) (Wales) Regulations 2020,
  - (dd) the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 3) (Wales) Regulations 2020, or

(1) O.S. 2020/1609 (Cy. 335) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1610 (Cy. 336), O.S. 2020/1623 (Cy. 340), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/57 (Cy. 13), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/95 (Cy. 26) ac O.S. 2021/103 (Cy. 28).

(1) S.I. 2020/1609 (W. 335) as amended by S.I. 2020/1610 (W. 336), S.I. 2020/1623 (W. 340), S.I. 2020/1645 (W. 345), S.I. 2021/20 (W. 7), S.I. 2021/46 (W. 10), S.I. 2021/57 (W. 13), S.I. 2021/66 (W. 15), S.I. 2021/95 (W. 26) and S.I. 2021/103 (W. 28).

- (ee) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020,
- (iii) sy'n "mabolgampwr elît" o fewn yr ystyr a roddir i "elite sportsperson" gan reoliad 2(1) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfngiadau) (Pob Haen) (Lloegr) 2020(1),
- (iv) sy'n "mabolgampwr proffesiynol" o fewn yr ystyr a roddir i "professional sportsperson" gan reoliad 2(1) o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws) (Cyfngiadau a Gofynion) (Lefelau Lleol) (Yr Alban) 2020(2), neu
- (v) sy'n "athletwr elît" o fewn yr ystyr a roddir i "elite athlete" gan baragraff 39(2) o Atodlen 2 i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Gogledd Iwerddon) 2020(3);"
- (4) Ym mharagraff 1 o Atodlen 4, yn is-baragraff (4)(f)—
- (a) ar ôl is-baragraff (ii), mewnosoder "neu";
  - (b) hepgorer is-baragraff (iv) a'r "neu" yn union o'i flaen.
- (5) Ym mharagraff 2 o Atodlen 4, yn is-baragraff (4)(i), hepgorer is-baragraff (ii) a'r "neu" yn union o'i flaen.
- (6) Ym mharagraff 6A o Atodlen 4—
- (a) yn is-baragraff (1), ar ôl "ddisgybl" mewnosoder "dynodedig";
  - (b) ar ôl is-baragraff (1) mewnosoder—  
“(1A) Yn y paragraff hwn, ystyr “disgybl dynodedig” yw disgybl ym mlwyddyn 3 neu'n uwch.”;
- (ee) the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 4) (Wales) Regulations 2020,
- (iii) is an "elite sportsperson" within the meaning given by regulation 2(1) of the Health Protection (Coronavirus, Restrictions) (All Tiers) (England) Regulations 2020(1),
- (iv) is a "professional sportsperson" within the meaning given by regulation 2(1) of the Health Protection (Coronavirus) (Restrictions and Requirements) (Local Levels) (Scotland) Regulations 2020(2), or
- (v) is an "elite athlete" within the meaning given by paragraph 39(2) of Schedule 2 to the Health Protection (Coronavirus, International Travel) Regulations (Northern Ireland) 2020(3);"
- (4) In paragraph 1 of Schedule 4, in sub-paragraph (4)(f)—
- (a) after sub-paragraph (ii), insert "or";
  - (b) omit sub-paragraph (iv) and the "or" immediately preceding it.
- (5) In paragraph 2 of Schedule 4, in sub-paragraph (4)(i), omit sub-paragraph (ii) and the "or" immediately preceding it.
- (6) In paragraph 6A of Schedule 4—
- (a) in sub-paragraph (1), before "pupil" insert "designated";
  - (b) after sub-paragraph (1) insert—  
“(1A) In this paragraph, “designated pupil” means a pupil in year 3 or above.”;
- 
- (1) O.S. 2020/1374, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1518, O.S. 2020/1533, O.S. 2020/1572, O.S. 2020/1611, O.S. 2020/1646, O.S. 2020/1654, O.S. 2021/8, O.S. 2021/53 ac O.S. 2021/97.
- (2) O.S.A. 2020/344, fel y'i diwygiwyd gan O.S.A. 2020/347, O.S.A. 2020/374, O.S.A. 2020/389, O.S.A. 2020/392, O.S.A. 2020/400, O.S.A. 2020/415, O.S.A. 2020/427, O.S.A. 2020/439, O.S.A. 2020/452, O.S.A. 2020/471, O.S.A. 2021/1, O.S.A. 2021/3, O.S.A. 2021/17, O.S.A. 2021/25, O.S.A. 2021/35, O.S.A. 2021/49, O.S.A. 2021/54 ac O.S.A. 2021/86.
- (3) Rh.S. 2020 Rhif 90, fel y'i diwygiwyd gan Reolau Statudol 2020 Rhifau 138, 140, 154, 155, 163, 168, 179, 185, 189, 193, 194, 200, 203, 212, 216, 223, 228, 234, 241, 243, 244, 254, 275, 278, 289, 326, 344, a 355 a Rheolau Statudol 2021 Rhifau 4, 5, 6, 9, 10, 13, 17 a 32.
- (1) S.I. 2020/1374, as amended by S.I. 2020/1518, S.I. 2020/1533, S.I. 2020/1572, S.I. 2020/1611, S.I. 2020/1646, S.I. 2020/1654, S.I. 2021/8, S.I. 2021/53 and S.I. 2021/97.
- (2) S.S.I. 2020/344, as amended by S.S.I. 2020/347, S.S.I. 2020/374, S.S.I. 2020/389, S.S.I. 2020/392, S.S.I. 2020/400, S.S.I. 2020/415, S.S.I. 2020/427, S.S.I. 2020/439, S.S.I. 2020/452, S.S.I. 2020/471, S.S.I. 2021/1, S.S.I. 2021/3, S.S.I. 2021/17, S.S.I. 2021/25, S.S.I. 2021/35, S.S.I. 2021/49, S.S.I. 2021/54 and S.S.I. 2021/86.
- (3) S.R. 2020 No. 90, as amended by S.R. 2020 Nos. 138, 140, 154, 155, 163, 168, 179, 185, 189, 193, 194, 200, 203, 212, 216, 223, 228, 234, 241, 243, 244, 254, 275, 278, 289, 326, 344, and 355 and S.R. 2021 Nos. 4, 5, 6, 9, 10, 13, 17 and 32.

- (c) yn is-baragraff (2)—
- (i) ym mharagraff (a), ar ôl “ddisgybl” mewnosoder “dynodedig”;
  - (ii) ym mharagraff (b), yn lle “disgybl rhag mynd” rhodder “i ddisgybl dynodedig fynd”;
  - (iii) ym mharagraff (c), yn lle “disgybl rhag mynd” rhodder “i ddisgybl dynodedig fynd”;
  - (iv) ym mharagraff (d), yn lle “disgybl rhag mynd” rhodder “i ddisgybl dynodedig fynd”;
  - (v) ym mharagraff (e), yn lle “disgybl sy’n ddisgybl preswyl rhag preswylio” rhodder “i ddisgybl dynodedig sy’n ddisgybl preswyl breswylio”.

(7) Ym mharagraff 6B o Atodlen 4, yn lle is-baragraff (2)(a) rhodder—

- “(a) sefydliad addysg bellach—
- (i) i sefyll arholiad neu wneud asesiad arall, neu
  - (ii) i wneud cwrs mewn peirianneg, adeiladu, lletygarwch, arlywo neu amaethyddiaeth, pan fo presenoldeb yn y sefydliad yn angenrheidiol er mwyn galluogi’r myfyriwr i gwblhau elfen ofynnol o’r cwrs;”.

(8) Ym mharagraff 6D o Atodlen 4, ar y diwedd mewnosoder—

- “(m) mae i “blwyddyn ysgol” yr un ystyr â “school year” yn adran 579(1) o Ddeddf 1996;
- (n) ystyr “blwyddyn 3” yw grŵp blwyddyn y bydd mwyafrif y plant, yn ystod y flwyddyn ysgol, yn cyrraedd 8 oed;
- (o) ystyr “grŵp blwyddyn” yw grŵp o blant mewn ysgol y bydd y mwyafrif ohonynt, mewn blwyddyn ysgol benodol, yn cyrraedd yr un oedran.”

(9) Yn Atodlen 5, ar ôl y tabl mewnosoder—

*“Addasiadau dros dro*

**2.** Mewn perthynas ag ardal Lefel Rhybudd 4, am y cyfnod o ddechrau’r diwrnod ar 20 Chwefror 2021 tan ddiwedd y diwrnod ar 12 Mawrth 2021—

- (a) mae paragraff 1(4)(f) o Atodlen 4 i’w ddarllen—
  - (i) fel pe bai’r “neu” ar ôl is-baragraff (ii) wedi ei hepgor, a

- (c) in sub-paragraph (2)—
- (i) in paragraph (a), before “pupil”, where it first occurs, insert “designated”;
  - (ii) in paragraph (b), before “pupil” insert “designated”;
  - (iii) in paragraph (c), before “pupil” insert “designated”;
  - (iv) in paragraph (d), before “pupil”, where it first occurs, insert “designated”;
  - (v) in paragraph (e), before “pupil” insert “designated”.

(7) In paragraph 6B of Schedule 4, for sub-paragraph (2)(a) substitute—

- “(a) a further education institution to undertake—
- (i) an examination or other assessment, or
- (ii) a course in engineering, construction, hospitality, catering, or agriculture, where attendance at the institution is necessary to enable the student to complete a required element of the course;”.

(8) In paragraph 6D of Schedule 4, at the end insert—

- “(m) “school year” has the same meaning as in section 579(1) of the 1996 Act;
- (n) “year 3” means a year group in which the majority of children will, in the school year, attain the age of 8;
- (o) “year group” means a group of children at a school the majority of whom will, in a particular school year, attain the same age.”

(9) In Schedule 5, after the table insert—

*“Temporary modifications*

**2.** In relation to an Alert Level 4 area, for the period from the start of the day on 20 February 2021 to the end of the day on 12 March 2021—

- (a) paragraph 1(4)(f) of Schedule 4 is to be read as if—
  - (i) the “or” after sub-paragraph (ii) were omitted, and

- (ii) fel pe bai wedi ei fewnosod ar ôl paragraff (iii) “neu
    - (iv) mewn grŵp o ddim mwy na 4 o bersonau o ddim mwy na 2 aelwyd, ond caiff y grŵp hefyd gynnwys unrhyw ofalwr i berson yn y grŵp ac unrhyw blant o'r naill aelwyd neu'r llall sydd o dan 11 oed.”;
  - (b) mae paragraff 2(4)(i) o Atodlen 4 i'w ddarllen fel pe bai wedi ei fewnosod ar ôl paragraff (i) “neu
    - (ii) mewn grŵp o ddim mwy na 4 o bersonau o ddim mwy na 2 aelwyd, ond caiff y grŵp hefyd gynnwys unrhyw blant o'r naill aelwyd neu'r llall sydd o dan 11 oed.”.
- (ii) after sub-paragraph (iii) there were inserted “or
- (iv) in a group of no more than 4 persons from no more than 2 households, but the group may also include any carer of a person in the group and any children from either household under the age of 11.”;
- (b) paragraph 2(4)(i) of Schedule 4 is to be read as if after sub-paragraph (i) there were inserted “or
- (ii) in a group of no more than 4 persons from no more than 2 households, but the group may also include any children from either household under the age of 11.”.

*Mark Drakeford*

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru  
Am 3.06 p.m. ar 19 Chwefror 2021

© Hawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

First Minister, one of the Welsh Ministers  
At 3.06 p.m. on 19 February 2021

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2021/172>

ISBN 978-0-348-11945-9



A standard linear barcode representing the ISBN 978-0-348-11945-9.

9 780348 119459